

Mae'r Erthyglau Llywodraethu yn nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd Academaidd ar gyfer y Brifysgol.

Er hyrwyddo'r cyfrifoldebau a nodir yn yr Erthyglau, ac yn unol â chyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr dros bennu cymeriad a chenhadaeth addysgol y Brifysgol, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi pennu'r Cylch Gorchwyl canlynol ar gyfer y Bwrdd Academaidd.

CYLCH GORCHWYL

Gweithredu'n unol â Rheolau Sefydlog y Brifysgol

- (i) Adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr, i sefydlu ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr, Rheoliadau Academaidd, Rheolau, Rheolau Sefydlog, Polisiâu a Gweithdrefnau fel sy'n ofynnol i lywodraethu gweithgareddau academaidd y Brifysgol a chynnal safonau academaidd, sicrhau ansawdd a chyfoethogi cyfleoedd dysgu ac addysgu a'r profiad dysgwyr gan gynnwys darpariaeth ar y cyd, cymryd i ystyriaeth materion moesegol yn deillio o addysgu, ymchwil neu unrhyw weithgareddau academaidd eraill y Brifysgol.

Dylai'r rhain gynnwys darpariaethau yn llywodraethu'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr, penodi a chael gwared ar arholwyr mewnol ac allanol, asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr, a chyflwyno gwobrau a theitlau academaidd anrhydeddus.

- (ii) Cymeradwyo darpariaeth rhaglen partner cydweithredol academaidd newydd yn unol â fframwaith Ansawdd Academaidd y Brifysgol a sicrhau safonau ac ansawdd academaidd darpariaeth o'r fath.
- (iii) Cymeradwyo polisiâu a gweithdrefnau i gefnogi a gwreiddio gweithgarwch ymchwil a menter yn y Brifysgol yn gysylltiedig â'r ymdrech academaidd ac yng nghyd-destun strategaeth gyffredinol y Brifysgol;
- (iv) Datblygu Strategaethau a Chynlluniau'r Brifysgol yn unol â Fframwaith Strategol y Brifysgol, gan dderbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a wneir tuag at gyflawni'r Fframwaith.
- (v) Ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w cefnogi, yng nghyd-destun Cynllun Strategol y Brifysgol gan gyfeirio'n benodol at adolygu a datblygu portffolio academaidd y Brifysgol; a chynghori'r Is-ganghellor a'r Bwrdd Llywodraethwyr ymlaen o hynny. Cymeradwyo cyflwyno meysydd pwnc newydd i bortffolio'r Brifysgol. Cymeradwyo rhaglenni newydd a'u cyflwyno ar y cyd.
- (vi) Sicrhau yr ymgwymerir ag archwiliadau ac adolygiadau mewnol cyfnodol er mwyn sicrhau bod safonau academaidd ac ansawdd darpariaeth yn cael eu cynnal.

- (vii) Pennu, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Llywodraethwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr, gweithdrefnau ar gyfer atal neu derfynu astudiaethau myfyrwyr am resymau academaidd; a chynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr ar reolau yng nghyswllt ymddygiad myfyrwyr, yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer atal a diarddel ar seiliau disgyblu.
- (viii) Pennu datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol yn unol â chynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol a pherthynas y Brifysgol â'r Coleg Cymraeg.
- (ix) Yn unol â'r Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu, enwebu ar gais Clerc y Bwrdd Llywodraethu hyd at ddau aelod o staff addysgu'r Brifysgol i ymaelodi â'r Bwrdd Llywodraethwyr. Dylai'r Bwrdd Academaidd adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd;
- (x) Yn unol â'r Erthyglau Llywodraethu, sefydlu pwyllgorau y mae'r Bwrdd Llywodraethu yn eu hystyried yn angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau, gan gymryd bod sefydlu'r pwyllgorau hyn yn cael ei gymeradwyo yn gyntaf gan yr Is-ganghellor a'r Bwrdd Llywodraethwyr. Y Bwrdd Academaidd fydd yn pennu nifer yr aelodau ar bob pwyllgor o'r fath ynghyd â'u rhinwedd a chyfnod eu dyletswyddau. Yn unol â'u cylch gorchwyl, dylai pob pwyllgor a sefydlir, ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Academaidd yn manylu gweithredoedd a gymerir a phenderfyniadau a wneir mewn perthynas â "materion i'w hadrodd" a dylai gyfeirio unrhyw "materion i'w hargymell" i'r Bwrdd Academaidd eu hystyried a/neu gymeradwyo. Dylai'r Bwrdd Academaidd adolygu'r holl "materion i'w hadrodd" a gall gymeradwyo neu ddiwygio penderfyniadau, fel sy'n briodol.
- (xi) Bydd gan y Cadeirydd awdurdod i gymryd camau gweithredol o'r fath fel sy'n ofynnol i hwyluso busnes brys rhwng cyfarfodydd, gan gymryd bod adroddiad o gamau o'r fath yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Academaidd.

Amllder Cyfarfodydd

Ni ddylai'r Bwrdd Academaidd gyfarfod llai na tair gwaith ym mhob Sesiwn Academaidd.